

Diweddariad – Swyddi gwell yn nes at adref

Cefndir

Mewn cyfarfod o'r Cyngor Adfywio Economaidd ym mis Hydref 2015, cyflwynodd TUC Cymru eu hymgyrch 'Swyddi Gwell yn Nes at Adref'.

Prif nod TUC Cymru oedd galw am sefydlu dau brosiect peilot yn ardal Blaenau'r Cymoedd. Roedd y prosiectau arfaethedig yn cynnwys defnyddio deddfwriaeth gaffael i sicrhau contractau addas, gan alluogi ffatrïoedd a gynorthwyr newydd i gael eu sefydlu a fyddai'n darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i rai o bobol fwyaf difreintiedig yr ardal.

Petai'r prosiectau peilot hyn yn llwyddiant, roedd ymgyrch TUC Cymru yn awgrymu y gallai fod yn gyfle i wneud ymyriadau tebyg mewn rhannau eraill o'r wlad. Bydd llwyddiant y prosiectau peilot yn cael effaith ar lefel unigol heb os. Fodd bynnag, dylai'r dull hwn gael effaith ystyrlon ar lefel gymunedol gydag ymyriadau masnachol pellach.

Dull Swyddi Gwell yn Nes at Adref yw profi ymyriadau caffael fel defnyddio contractau wedi'u cadw trwy dreialon Swyddi Gwell. Unwaith rydym wedi profi eu bod yn hyfyw, byddwn yn cysylltu â phrynwyr eraill y sector cyhoeddus er mwyn mabwysiadu'r cyfryw ddulliau gydag enghraifft 'fyw' o sut y gellir cyflwyno'r un dull. Bydd hyn nid yn unig yn helpu sefydliadau eraill y sector cyhoeddus sut i drefnu prosesau caffael tebyg, ond yn dileu'r rhagdybiaeth nad oes modd gwneud hynny.

Rhaglen

- Mae tîm trawslywodraeth yn bwrw ymlaen â'r rhaglen Swyddi Gwell yn Nes at Adref er mwyn cysoni amryw o brosiectau peilot masnachol ag ymyriadau eraill er mwyn helpu i greu swyddi gwerth chweil mewn cymunedau â lefelau uchel o ddiweithdra. Mae hyn yn golygu swyddi lleol i bobl lleol gyda chyflog teg ac amodau cyflogaeth da.
- Bydd y prosiectau peilot yn profi dulliau newydd o gaffael sydd wedi'u cynllunio i greu gwaith o ymyriadau masnachol o fewn proffil gwariant Sector Cyhoeddus Cymru ar waith, swyddi a gwasanaethau. Os bydd y prosiectau peilot yn llwyddiannus, yna gellir ailadrodd y dulliau hyn mewn rhannau eraill o Gymru, mewn meysydd gwariant eraill.
- Bu tîm y rhaglen drawslywodraeth yn craffu ar £6 biliwn o wariant y sector cyhoeddus, ac mae wedi nodi amrywiaeth o ymyriadau masnachol a chaffael posib a allai gyflwyno cyfleoedd gwaith mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd uchel iawn.
- Mae'r rhaglen yn rhan o Dasglu'r Cymoedd ac o fewn **Blaenoriaeth 1** [Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni]; **Cam gweithredu 6** *Cyflwyno Swyddi Gwell yn Nes at Adref yn y Cymoedd i greu cyfleoedd go iawn a swyddi da lle mae'r angen mwyaf. Mae hyn yn cynnwys defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi busnesau a chadwyni cyflenwi lleol.*
- Mae'r dulliau ymyrryd yn amrywio yn unol â phob prosiect peilot a gyflwynwyd; a'r modelau yw;

- **Peilot 1** - Hyb gweithgynhyrchu; bydd y peilot hwn yn caffael partner cymdeithasol i redeg uned weithgynhyrchu yng Nglynebwy. Bydd yr uned weithgynhyrchu yn gweithredu fel marchnad lafur drosiannol (ILM). Mae'r ILM yn berson ganolog, a bydd yn gweithredu fel cadwyn gyflenwi'r economi sylfaenol, yn creu dillad o'r radd flaenaf ar gyfer diwydiannau, gan gynnwys y sector cyhoeddus. Y rheswm y bydd yr ymyriad hwn yn gallu cyrraedd y gadwyn gyflenwi yw oherwydd bod modd ysgwyddo'r costau cyfredol, ac felly mae'n fuddsoddiadwy a chynaliadwy.
- Ni fydd yr ILM yn cymryd lle cyflogaeth barhaol, nid dyna fwriad yr ymgyrch. Bydd gweithredwr yr ILM yn cael ei gaffael o'r farchnad mentrau cymdeithasol, a'r prif nod fydd buddsoddi elw yn ôl i'r ILM gyda phwyslais ar helpu mwy a mwy o bobl i ddychwelyd i fyd gwaith.
- Bydd yr ILM yn cydweithio'n agos â'r Ardal Fenter yng Nglynebwy er mwyn paratoi pobl sydd eisoes yn gweithio o fewn yr ILM i gael y sgiliau angenrheidiol i gyflenwi'r swyddi parhaol lleol a fydd ar gael yn yr ardal a thu hwnt – dull hyfforddiant allanol sy'n cael ei drefnu yn barod ar gyfer yr ILM.
- Hefyd, mae'r tîm yn gweithio gyda swyddogion ar draws y llywodraeth i ddeall rhwystrau eraill i gyflogaeth fel gofal plant, ac mae trafndiaeth a'r darpariaethau ar gyfer lleihau'r rhwystrau mynediad hyn hefyd dan ystyriaeth;
- enghraifft (a) bydd Peilot 1 yn cael ei leoli o fewn 100 llath i safle bws a 300 llath o orsaf drenau Glynebwy. Hefyd, mae'r tîm yn gweithio gyda thîm trafndiaeth yr awdurdod lleol i ganfod amseroedd cyrraedd a gadael moddau trafndiaeth gwahanol a allai ddylanwadu ar oriau gwaith yr ILM.
- enghraifft (b) mae'r tîm swyddi gwell yn gweithio gyda thîm gofal plant Llywodraeth Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent i ganfod faint o wasanaethau gofal plant sydd ar gael o fewn cyrraedd lleoliad yr ILM, a bydd yn ystyried hyn wrth lunio'r ddogfen gaffael er mwyn caffael y gweithredwr ILM.
- Mae'r sgiliau fydd eu hangen wedi'u nodi ar gyfer pob elfen o waith yr ILM, o'r broses cyngyflogi, i gyflogaeth o fewn yr ILM, ac mae'r rhain yn amrywio o waith cynllunio i reoli peiriannau. Unwaith y bydd cyfleoedd gwaith parhaol yn codi yn yr Ardal Fenter, bydd y gweithredwr yn caffael y sgiliau hyfforddi hynny fel bod yr ymgeisydd posib o'r ILM yn gallu cael y sgiliau gofynnol a fydd yn rhoi cyfle gwirioneddol i'r person hynny lwyddo yn ei rôl.
- Mae'r Tîm Swyddi Gwell wedi meithrin perthynas waith dda gyda Chadeirydd yr Ardal Fenter a thîm cymorth yr ardal, felly bydd unrhyw gyfleoedd cynnar sy'n codi yn cael eu cyflwyno i'r ILM.
- Hefyd, bydd yr ILM yn hyfforddi unigolion fel bod ganddyn nhw ddealltwriaeth lefel mynediad o dechnoleg a llythrennedd digidol, a bydd angen rhai o'r sgiliau hynny o fewn yr ILM.

- Bydd gan yr ILM strwythur staff/mentor sylfaenol a fydd yn un parhaol – a bydd y mentoriaid hynny'n allweddol o ran sicrhau bod y cwmni'n perfformio, mewn cyflwr ariannol da ac yn gynaliadwy, a bod galw am gynhyrchion o safon sy'n cael eu cyflenwi mewn da bryd.
- Bydd angen i'r cynnyrch fod o safon ddisgwyliedig a bodloni'r pris penodedig yn fasnachol fel bod y fenter yn llwyddiant hirdymor. Mae Tîm Swyddi Gwell yn Nes at Adref wedi gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant hwn, ynghyd â dosbarthwyr eraill, ac wedi dod i'r casgliad y gellir cynhyrchu'r cynnyrch am y pris penodedig, bod digon o alw amdano, ac y bydd y cynnyrch [gyda chymorth hyfforddiant trwyddedig gan y diwydiant] yn bodloni'r safonau ansawdd gofynnol.
- **Peilot 2 a 4** - Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gyda busnesau cyfredol y Cymoedd (Glynebwy a Merthyr Tudful) gyda phwyslais ar gadw swyddi a chreu swyddi trwy gynyddu'r galw trwy gyfrwng menter gymdeithasol sy'n cynhyrchu arwyddion (Peilot 2) a phapur wedi'i ailgylchu (Peilot 4) - fel busnesau cymdeithasol, maen nhw'n gwneud arian fel unrhyw fusnes arall trwy werthu nwyddau a gwasanaethau, ond yn rhoi'r elw yn ôl i achosion cymdeithasol neu amgylcheddol - felly mae'r gymdeithas ar ei hennill, gan arwain at gynnydd yn y galw sy'n arwain at gynnydd mewn elw yn cael ei ail-fuddsoddi yn y busnes a phob cyfle'n cael ei wneud i gynyddu swyddi. Mae diweddariad ar gael isod;
- Mae **Peilot 2** wedi profi llwyddiant cynnar, yn sgil galw ychwanegol am arwyddion trwy'r ffatri gan contractau cyfredol y sector cyhoeddus. Mae'r galw ychwanegol hwn wedi sicrhau bod staff cyfredol yn cadw eu swyddi. Hefyd, mae amodau a thelerau contract mawr Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd cyfran o'r gofynion arwyddion yn cael ei chynhyrchu yn ffatri arwyddion Glynebwy. Bydd y gyfran yn dibynnu ar allu a galluogrwydd yr allbwn y gellir eu rheoli gan y gwaith. Gan mai contract y dyfodol yw hwn, mae Tîm Swyddi Gwell wedi sicrhau cymorth ymlaen llaw gan Fusnes Cymdeithasol Cymru er mwyn sicrhau na fydd unrhyw broblemau yng ngallu'r staff unwaith y bydd y contract wedi'i ddyfarnu. Ar ôl dyfarnu'r contract, bydd y ffatri'n gallu cynyddu oriau gwaith y staff cyfredol, pob un ag anabledd, a chreu swyddi newydd i bobl eraill dan anfantais. Gobeithio y gwelwn ni swyddi newydd yn cael eu creu yn ystod 2018.
- **Peilot 4** - Dyma fenter gymdeithasol gyfredol sy'n cyflogi pobl anabl, pobl ddigartref a phobl a arferai fod yn ddi-waith yn yr hirdymor, ac mae'n gweithredu fel marchnad lafur drosiannol. Mae'r cwmni'n casglu, didoli a rhwygo gwastraff ond mae angen mwy o dunelli o bapur er mwyn creu'r cyfleoedd i gyflogi rhagor o bobl o fewn y cwmni, ac fel bod y cwmni'n gallu cynnal ei hun yn ariannol. Sicrhawyd cytundeb i ateb y galw hwn, ac mae'r mater yn dal i fynd rhagddo. Mae'r fenter gymdeithasol wedi cael canlyniadau rhagorol o ran symud pobl ymlaen i'r farchnad waith ehangach.
- **Peilot 3** - Mae'r Tîm Swyddi Gwell yn datblygu Cyfrwng at Ddibenion Arbennig er mwyn copïo cwmni o Birmingham a chreu rhywbeth tebyg yma yng Nghymru. Mae'r cwmni'n casglu paent gwastraff a'i ail-beiriannu ar gyfer

ei ailddefnyddio. Mae hyn oherwydd bod faint o baent gwastraff sydd yna yng Nghymru yn cynyddu, ac mae Tîm Swyddi Gwell wedi llwyddo i gael ymrwymiadau gan gadwyni cyflenwi i ddefnyddio paent wedi'i ail-beiriannu ar brosiectau yng Nghymru.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau gwaith profi ansawdd er mwyn defnyddio paent wedi'i ail-beiriannu ar adeiladau ar ei hystâd ei hun, yn adeiladau Caerfyrddin (peintio'r tu mewn) ac adeilad Penlle'r-gaer (peintio'r tu allan), ac mae cost paent wedi'i ail-beiriannu o fewn pris penodedig y farchnad y cytunwyd arno. Bwriad y prosiect yw creu cyflogaeth, fodd bynnag mae rhai canlyniadau cyflewol megis lleihau symudiadau paent, a mabwysiadu economi gylchol.
- Mae'r tîm mewn trafodaethau â phartneriaid prosiect mawr o fewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru er mwyn;
- cynyddu'r galw am baent gwastraff (y defnydd crai),
- a chyflenwi paent wedi'i ail-beiriannu (stoc orffenedig wedi'i labelu).
- Mae'r tîm wedi gweithio gyda phartneriaid i sicrhau ymrwymiad gan adrannau gwastraff wyth awdurdod lleol i'r cwmni gasglu eu paent gwastraff, ac mae hyn yn darparu'r mas critigol o wastraff i gefnogi'r cwmni i fodoli yng Nghymru a chreu cyfleoedd gwaith.
- Mae mwy a mwy o alw am y cynnyrch hefyd, gydag ymrwymiad gan sefydliad Trafnidiaeth Cymru (amodau'r contract gyda'r Gweithredwr [i'w benodi]), a dwy gymdeithas tai, ac mae busnesau bach a chanolig yng Nghymru wedi dangos diddordeb yn y cynnyrch gorffenedig hefyd.
- Mae gwaith cynllunio cynnar ar y llwybr cyflogaeth hefyd ar droed, a Menter Gymdeithasol o Ferthyr Tudful fydd y sefydliad sy'n lletya.
- Mae'r pedwar prosiect peilot yn rhoi pwyslais ar wella cyfleoedd cyflogaeth i weithwyr dan anfantais. Mae'r prosiectau peilot hyn yn dal i gael eu datblygu ac yn amodol ar gymorth gwladwriaethol a chynghor ar gaffael.

Cwestiynau cyffredin

C. Pryd fydd y gwaith wedi'i gwblhau?

- Dyma hanes y prosiectau peilot hyd yma;
 1. **Peilot 1** – disgwylir i'r gwaith gychwyn [h.y. agor ffatri] ym mis Ebrill 2018, mae'r MA-P ar ffurf drafft terfynol ac mae proses gynllunio ar gyfer caffael y gweithredwr ar waith.
 2. **Peilot 2** – mae'r prosiect hwn wedi profi llwyddiant cynnar ac mae archebion yn cynyddu trwy fusnesau cyfredol, gyda rhagor i ddod. Mae awdurdod lleol wedi cyflwyno archeb, ac mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i ddefnyddio'r fenter gymdeithasol.
 3. **Peilot 3** – disgwyl i'r gwaith gychwyn ym mis Ebrill 2018. Cytunwyd ar gefnogaeth Busnes Cymdeithasol Cymru er mwyn cael cyngor

cyfreithiol ar gyfer y Cyfrwng at Ddibenion Arbennig a fydd yn rheoli'r gwaith.

4. **Peilot 4** - cytunwyd ar ragor o alw gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf i gyflenwi tunelledd ychwanegol o bapur i'r Fenter Gymdeithasol. Bydd hyn yn gam cadarnhaol i'w caniatáu i fod yn hunangynhaliol.

C. Ble fydd lleoliad y pedwar prosiect peilot?

- Bydd Peilot 1 (iwnifformau a dillad) yng Nglynebwy, mewn adeilad sy'n agos i'r orsaf fysiau a'r orsaf drenau, a fydd yn helpu i oresgyn un o'r rhwystrau rhagdybiedig i gyflogaeth.
- Mae Peilot 2 (arwyddion) yn rhan o fenter gymdeithasol sydd eisoes ar waith yng Nglynebwy.
- Disgwylir i Beilot 3 (paent wedi'i ail-beiriannu) weithio ym Merthyr Tudful i ddechrau, gyda'r potensial i ehangu i Fryn Picau, Abercynon, RhCT o bosib.
- Mae Peilot 4 (papur wedi'i ailgylchu) yn rhan o fenter gymdeithasol sydd eisoes wedi'i sefydlu ym Mhentre-bach, Merthyr Tudful.

C. Faint o bobl fydd y prosiectau peilot hyn yn eu cyflogi?

- **Peilot 1** – Mae'r Tîm Swyddi Gwell wedi canolbwyntio ar gynnyrch a fydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i wneud 25 dilledyn bob dydd. Hefyd, mae'r tîm yn gweithio gyda dosbarthwyr y cadwyni cyflenwi sy'n gwerthu'r nwyddau hyn i'r sector cyhoeddus er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i gyflenwi marchnadoedd eraill. Y strwythur a gynigir ar hyn o bryd yw 25 o bobl, ond ni fydd yn strwythur parhaol, gan fod y gwaith wedi'i gynllunio i symud pobl i'r farchnad waith ehangach yn gysylltiedig â'r Ardal Fenter. Felly, bydd trosiant o bobl sydd wedi cael cyflogaeth mewn lluosrifau o tua 10 i 15, gyda strwythur craidd yn parhau i redeg yr ILM. Bydd cymorth gwladwriaethol yn rhan o gontract Llywodraeth Cymru i benodi gweithredwr, a bydd y gweithredwr yn cael ei gaffael [fel contract neilltuol dan Reoliad 77 o Reoliadau Contract Cyhoeddus 2015] o'r sector Menter Gymdeithasol, yn unol ag ymgyrch Swyddi Gwell yn Nes at Adref.
- **Peilot 2** – Nod prosiect peilot 2 yw cynyddu oriau gwaith pobl sydd eisoes wedi'u cyflogi. Mae tîm Swyddi Gwell yn Nes at Adref yn cynnal trafodaethau sy'n arwain at archebion; mae llwyddiant cynnar yn cynnwys Awdurdod Lleol yn cyflwyno archeb o werth canolig (tua £10,000), mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i roi 5% o'u harchebion am bob arwydd newydd (259 o orsafoedd ledled Cymru yn ogystal ag arwyddion signalau a'r cledrau) gyda chyfle iddyn nhw wneud cais am fwy hefyd. Mae Busnes Cymdeithasol Cymru yn helpu'r cwmni gyda materion galluogrwydd a rheoli cynlluniau er mwyn paratoi at fwy o archebion a busnes. Hefyd, mae tîm Rheoli Cyfleusterau Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'u prif contractwr i gynnwys y cwmni wrth ofyn am arwyddion ledled ystâd Llywodraeth Cymru. Hyd nes y bydd yr archebion wedi'u cyflwyno, mae'n anodd dweud faint o gynnydd fydd yn oriau gwaith y bobl sydd yno'n barod, neu a fydd rhagor o bobl wedi'u cyflogi.

- **Peilot 3** - Rhagwelir y bydd y cyflenwad cyfredol o ddefnydd crai yn creu digon o waith i 15 o bobl. Mae tîm Swyddi Gwell yn gweithio'n barhaus gyda phartneriaid i gynyddu'r cyflenwad o baent gwastraff o adrannau gwastraff awdurdodau lleol, a chyflenwi paent wedi'i ail-beiriannu ar gyfer gwaith ailaddurno sylweddol a gwaith adeiladu newydd ar draws y sector cyhoeddus. Bydd y gwaith parhaus o gynyddu'r galw yn arwain at fwy o gyfleoedd gwaith i bobl y rhanbarth. Hefyd, mae tîm Swyddi Gwell yn Nes at Adref yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau sydd wedi tynnu sylw at brinder peintwyr ac addurnwyr [masnach] yn y De-ddwyrain. Mae'n cael ei ystyried yn gyfle o fewn y prosiect peilot hwn, ond does dim manylion pellach ar hyn o bryd.
- **Peilot 4** – Mae gwaith cynnar wedi sicrhau ymrwymiad gan awdurdod lleol i ddarparu rhagor o bapur gwastraff i'r cwmni, ond nid yw'r union niferoedd wedi'u pennu eto, a fydd yn effeithio ar y canlyniad. Ar hyn o bryd, mae'r ffatri yn casglu deg tunnell o bapur bob mis ac angen trigain tunnell y mis i fod yn hunangynhaliol. Mae Swyddi Gwell yn hyderus y gallwn gynyddu a rhagori ar y galw, a fydd yn ei dro, yn creu rhagor o gyfleoedd gwaith. Ar hyn o bryd, mae'r cwmni'n rhagweld y bydd yn cyflogi rhwng 11 a 50 o weithwyr yn yr adeilad cyfredol, ond petai'r galw'n cynyddu, byddant yn awyddus i ehangu neu symud i adeilad newydd a darparu mwy o gyfleoedd gwaith i gyd-fynd â'r galw cynyddol.

C. Beth yw'r sail resymegol dros ddewis y cynhyrchion penodol hyn fel rhan o'r prosiectau peilot?

- Mae'r tîm yn ymateb i ymgyrch Swyddi Gwell yn Nes at Adref y TUC, yn sgil sefydlu Tasglu'r Cymoedd. Cafodd yr ardaloedd eu dewis am y rhesymau canlynol;
- Mae modd cyflawni prosiectau heb fawr o fuddsoddiad gan fod galw cyson o fewn y sector cyhoeddus, ac mae modd dwyn fframwaith o bolisiau at ei gilydd i gynorthwyo gydag ymyriadau cyflenwi fel; buddsoddiadau Cymorth Gwladwriaethol, Rheoliadau Contract Caffael, rhaglenni Sgiliau a Chyflogadwyedd sy'n bodoli. Mae'r holl reoliadau a'r polisiau hyn yn sail ar gyfer cyflenwi.
- Roedd gwaith dadansoddi data'r sector cyhoeddus wedi creu rhestr hir o gyfleoedd, a thrwy graffu ar bob cyfle o fewn gweithgor trawsbleidiol o swyddogion, cytunwyd ar y cynhyrchion hyn ar gyfer y rhestr fer.
- Nid yw'r cyfleoedd yn amharu ar y gadwyn cyflenwi neu farchnadoedd lleol sydd eisoes yn bodoli, ac felly ddim yn arwain at golli swyddi yn unrhyw le arall yng Nghymru.
- Mae'r Cymoedd yn cynhyrchu gwasanaethau a chynhyrchion o safbwynt yr economi sylfaenol, a bydd y cwmnïau hyn yn dilyn y patrwm hwnnw.
- Mae prosiectau peilot 2 a 4 yn rhannu ein nod o fod eisiau helpu pobl dan anfantais i gael gwaith.

Diwedd: Simon Griffiths, 21 Tachwedd 2017

